**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Ysgolion

**Ystafell Bwyllgor 3A, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 18 Hydref 2017 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Sykes (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | L S Gibbard |
| D W Helliwell | L R Jones | M A Langstone |
| L J Tyler-Lloyd | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Helen Morgan - Rees | Hub Head of Education Improvement |
| Michelle Roberts | Scrutiny Officer |
| brian roles | Head of Education Planning and Resources |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): B Hopkins a/ac S M Jones

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Nodiadau a llythyr y Cynullydd o gyfarfod y panel 21 09 17**

Cytunwyd ar y nodiadau a chafwyd dau eglurhad am nodiadau a llythyr y cynullydd o 21 Medi, yn bennaf;

- *Cawsom ein hannog i glywed am y memorandwm o ddealltwriaeth y cytunwyd arno gydag ysgolion, sy'n manylu ar y gefnogaeth a ddarperir er mwyn galluogi plant i ddychwelyd i'r ysgol.* Eglurhad: Nid oes memorandwm o ddealltwriaeth fel y cyfryw mewn lle ond mae memorandwm o ddealltwriaeth ynghylch symudiadau wedi'u rheoli yn Abertawe.
- *Roedd y panel yn falch o glywed am y pecyn cymorth hunanwerthuso ymddygiad i ysgolion sydd wedi'i lunio a byddai hwn yn ffurfio rhan o ymweliad yr Ymgynghorwyr Herio.* Eglurhad: Mae'r pecyn cymorth hunanwerthuso yn y broses o gael ei ddatblygu ond nid yw wedi'i gwblhau ar hyn o bryd. Gobeithir y bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd tymor yr Hydref 2017.

3 **Y Diweddaraf ar Berfformiad y Gwasanaeth Gwella Ysgolion**

Roedd Pennaeth Gwasanaeth Gwella Addysg yr Hwb (EIS) Castell-nedd ac Abertawe, Helen Morgan-Rees yn bresennol yn y cyfarfod a chyflwynodd ddiweddariad ar berfformiad, blaenoriaethau a chynhwysiad y Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn Abertawe.

Codwyd a thrafodwyd y materion canlynol gan y panel:

- Consortia yng Nghymru sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion ar hyn o bryd, ac mae Abertawe'n rhan o Gonsortia ERW, sy'n gynghrair o chwe awdurdod lleol gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot, Powys, Sir Gâr, Sir Benfro, Ceredigon ac Abertawe. Mae gan ERW gynllun busnes ac mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol.
- Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer gwella ysgolion, trefniadau llywodraethu a chamau gweithredu gwelliannau corfforaethol. Mae'r holl flaenoriaethau'n gysylltiedig â deilliannau mesuradwy ysgolion.
- Mae deg amcan ar draws tri chynllun gweithredu Consortia ar gyfer 2016/17. Nodir llwyddiant mewn perthynas â gwella canlyniadau (effaith) ac adborth ansoddol (rheoli ansawdd). O'r deg amcan, canolbwyntiodd y panel ar y canlynol yn benodol:
  - *Gwella canlyniadau yn y Cyfnod Sylfaen,* lle cafwyd gwelliant bach yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen. Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn lleihau'r bwlch mewn perfformiad ar gyfer disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.
  - *Gwella canlyniadau mathemateg, rhifedd, Saesneg a llythrennedd:* gwelwyd gwelliannau ar draws pob cyfnod heblaw am gyfnod allweddol 4. Mae newidiadau yn y cymwysterau cenedlaethol wedi cael effaith ar ganlyniadau yn gyffredinol ar gyfer cyfnod allweddol 4, a dangosir patrwm tebyg ar draws Cymru. Mae gwaith pellach yn cynnwys cefnogi Saesneg a Mathemateg ar lefel uwchradd.
  - *Gwella darpariaeth ar gyfer cymhwysedd digidol:* adeiladu ar ofyniad y Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd. Mae gwaith pellach yn cynnwys sicrhau bod staffio digonol ar gael. Roedd y panel am bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gan ysgolion staff wedi'u hyfforddi a'r cyfleusterau sydd eu hangen fel bod plant yn gymwys yn ddigidol. Yn enwedig o ystyried y Fargen Ddinesig ar hyn y bydd yn ei gynnig. Teimlodd y panel ei bod hi'n bwysig ein bod ni ar flaen y gad, drwy ddefnyddio pobl sydd â'r gallu, fel busnesau lleol a'r brifysgol er mwyn symud yr agenda hon yn ei blaen yn gyflym ac yn effeithiol. Bydd y panel yn gofyn i Aelod y Cabinet am fwy o wybodaeth am sut y mae ysgolion a'r awdurdod lleol yn cael eu cynnwys ac eraill megis y sector preifat a'r brifysgol, er mwyn arwain yr agwedd benodol hon yn ei blaen cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod disgyblion y dyfodol yn barod ar gyfer y cyfleoedd y gall y Fargen Ddinesig eu cynnig.
  - *Monitro a gwerthuso ysgolion yn effeithiol:* rhoddwyd gwybod i'r panel y gall fod yn anodd cael sgwrs onest â rhai ysgolion. Bydd angen mwy o waith er mwyn sefydlogi staff a sicrhau cysondeb ac archwilio syniadau newydd.
  - *Adeiladu ar allu arwain mewn ysgolion:* mae amrywiaeth da o ddarpariaeth ar gyfer datblygu staff mewn ysgolion ar hyn o bryd. Mae angen sicrhau bod y ddarpariaeth yn unol ag Academi Genedlaethol nwydd ar Arweinyddiaeth.

- Mae'r EIS wedi gwella a datblygu drwy gynnwys partneriaid rhanbarthol yn llawn er mwyn darparu prosbectws dysgu proffesiynol clir a dewis o gefnogaeth i ysgolion. Mae ehangder cefnogaeth arwain mewn ysgolion wedi gwella. Mae cyfleoedd strategol er mwyn i ysgolion weithio gydag eraill wedi cynyddu.
- Cynnydd mewn dysgu ac addysgu. Mae'r EIS yn cefnogi gwelliant mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, anghenion dysgu ychwanegol a chymhwysedd digidol. Mae hefyd gefnogaeth wedi'i chydlynu'n dda ar gyfer athrawon newydd. Gall cefnogaeth ychwanegol gael ei threfnu drwy dîm canolog ERW. Cefnogaeth dda ar gyfer arweinwyr ysgolion er mwyn gwella prif feysydd dysgu. Mae'r defnydd o HWB yn gwella cydweithio rhwng ysgolion. O ganlyniad, mae gan athrawon fynediad gwell i adnoddau gwerthfawr, rhwydweithiau a deunyddiau hyfforddi.
- Mae cysondeb mewn asesiad athrawon wedi cael ei hwyluso gan bresenoldeb ac arweiniad gan swyddogion mewn digwyddiadau cymedroli clystyrau. Anogir ysgolion i ddatblygu proffiliau dysgwyr electronig a chafwyd parhad wrth gymedroli'r Cyfnod Sylfaen. Mae mwy o gysondeb a chywirdeb yn gyffredinol mewn asesiad athrawon. Mae mwy o bwyslais ar gynnydd disgyblion unigol erbyn hyn, ac mae'n debygol y bydd mesurau perfformiad y dyfodol yn rhoi mwy o bwyslais ar blant yn hytrach na data.
- Nodir rhwystrau i welliant pellach fel:
  - Ansicrwydd a diffyg eglurder o ran rôl ERW wrth gyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion. Gall hyn achosi tensiynau a chamsyniadau di-fudd ar gyfer gweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau.
  - Gall lefelau staffio ansefydlog rwystro dilyniant a pharhad y gwasanaeth a ddarperir i ysgolion.
  - Mae cyhoeddi canlyniadau Categoreiddio Cenedlaethol yn gweithio'n erbyn y cyfrifoldeb a'r berthynas sydd eu hangen ar gyfer ysgolion a'r ymgynghorwyr herio er mwyn iddynt weithio mewn ffordd gydweithredol.
  - Nid yw cyflymder newid mewn ysgolion yn darparu amser a lle ar gyfer hunan welliant bob tro. Mae effaith ar les penaethiaid yn parhau i fod yn achos o bryder.
  - Gall gorddefnyddio data fod yn rhwystr i ysgol a'r ymgynghorwyr herio am nad ydynt yn gwybod yr hyn y gall disgyblion ei wneud neu beidio.
  - Canfyddir bod ymweliadau craidd y cytunir arnynt yn rhanbarthol yn creu mater llwyth gwaith i benaethiaid ac mae hyn yn groes i leihau llwyth gwaith.
  - Mae'r weithred syml o fonitro ysgol yn dod yn llai dilys o ganlyniad i systemau electronig nad ydynt yn gallu cystadlu ag amser go iawn.
  - Cefnogaeth o ysgol i ysgol a chydweithio. Hynod effeithiol i gefnogi ysgolion ond gall gael ei effeithio gan ffactorau allanol megis Profiadau Andwyol yn ystod Plentyndod (ACEs).
- Mae nifer y Swyddogion Gwella Ysgolion, gan gynnwys ymgynghorwyr herio, yng Nghyngor Abertawe ar hyn o bryd ar lefel optimwm o 12 gweithiwr amser llawn a ariennir yn ganolog. Fodd bynnag nid yw pob math o gefnogaeth yn cael ei chyflwyno gan ymgynghorwyr herio ac yn cael ei threfnu ar gyfer arbenigwyr perfformiad.
- Datblygiad proffesiynol - mae'r panel yn gofyn am y dysgu proffesiynol sydd ar gael i athrawon a pha mor gyson y mae hyn yn digwydd. Mae llawer o weithgareddau rhyng-ysgolion ymghylch dysgu proffesiynol ac mae ffyrdd mwy cost effeithiol o ddatblygu staff na'u hanfon ar gyrsiau megis monitro, herio gwersi etc. Mae proses rheoli perfformiad ar waith ar draws ysgolion lle mae anghenion hyfforddi'n cael eu monitro a'u nodi.

- Cefnogaeth a her i'r uned atgyfeirio disgyblion ac mae'r ddwy ysgol arbennig yn Abertawe'n datblygu'n dda gydag ymgynghorydd herio dynodedig ac arbenigwr perfformiad.
- Dyma'r pedwar prif amcan ar gyfer y flwyddyn nesaf:
  - Gwella ansawdd arweinyddiaeth a'i effaith ar ganlyniadau
  - Gwella ansawdd dysgu a phrofiadau dysgu
  - Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad
  - Cyflwyno gwasanaeth o safon a chefnogaeth, her ac ymyriad penodol i ysgolion
- Mae cydberthynas rhwng gallu llawn ymgynghorwyr herio a chofrestr risgiau gwella ysgolion ERW ar gyfer Abertawe. Os bydd nifer yr ymgynghorwyr herio'n is na'r lefel optimwm, mae risg gynyddol y bydd ysgolion yn disgyn i gategorïau dilynol Estyn oherwydd monitro a gwerthuso ysgolion gwannach.

## 4 Addysg o Safon (AoS) a Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif

Roedd Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg, Brian Roles, yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn trafod cynnydd Addysg o Safon a Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Trafodwyd y materion canlynol:

- Mae Band A yn datblygu'n dda ac wedi cwblhau prosiectau yn ysgolion cynradd Newton, Glyncollen, Burlais, Tregŵyr a Phentre'r Graig ac YGG Lôn-Las, gyda gwaith yn cael ei wneud yn Ysgol Gyfun Gŵyr a Phentrehafod. Yr hyn sy'n weddill yw cyflwyno adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Gorseinon oherwydd cais maes pentref. Cyfanswm buddsoddiad rhaglen Band A yw £51,310,000 gyda 50% yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.
- Y grant ar gyfer prosiectau cyfalaf Band B yw 50% o hyd. Gradd y grant ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yw 75%. Mae ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol yn derbyn 85% gan Lywodraeth Cymru ac mae angen 15% arnynt gan gorff gwirfoddol.
- Nodir y cynlluniau buddsoddi blaenoriaeth drwy'r meini prawf canlynol: safonau, risg, cyflwr, problemau addasrwydd penodol, tirwedd, angen sylfaenol (lle mae diffyg clir mewn lleoedd), digonolrwydd (lleoedd dros ben), dichonoldeb, cynaladwyedd a chyflwyno.
- Nodir y prif opsiynau blaenoriaeth drwy gynnwys rhanddeiliaid yn helaeth.
- Mae cadernid rhaglen Abertawe wedi'i graffu gan Lywodraeth Cymru dro ar ôl tro ac mae'n amodol ar ei chymeradwyaeth yn y pen draw.
- Mae'r cais arfaethedig i Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu datblygiad naturiol y strategaeth tymor hir a gymeradwywyd eisoes ond mae hefyd yn adlewyrchu ystyriaeth ychwanegol newidiadau mewn galwadau a blaenoriaethau.
- Mae'r prif feysydd cyflwyno ar gyfer Band B yn cynnwys:
  - Gwariant trosiannol o Fand A ar Ysgol Gynradd Gorseinon
  - Cyfleuster Addysg Mewn Lleoliad Heblaw'r Ysgol (EOTAS)
  - Cyflwyno ymrwymiadau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
  - Darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg
  - Darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg
  - Anghenion drwy gymorth y sector
  - Adolygiad Ysgolion Arbennig
  - Trawsnewid ardal ehangach

- Arian Llywodraeth Cymru ar gyfer Band B fydd £600m cyfalaf a £500m refeniw ar gyfer Cymru gyfan. Nid yw'r cyllid sydd ar gael yn debygol o gefnogi graddfa'r ceisiadau a ragwelir gan awdurdodau lleol. Darperir y refeniw gan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol sef math o bartneriaeth gyhoeddus breifat. Mae'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, yn wahanol i ffurfiau traddodiadol o PPP yn cynnwys ymrwymiadau tymor hir er mwyn sicrhau buddion i'r gymuned, creu prentisiaethau a lleoedd hyfforddi ar gyfer gweithiwr Cymru ac ar gyfer datblygu'n gynaliadwy, y bydd yn rhaid i'r partner preifat gefnogi cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Dylai Abertawe glywed am ganlyniad y cais am Fand B tua diwedd 2017.
- Bwriadu nodi pedwar cynllun o bosib ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ond bydd hyn yn cael ei wneud yn y tymor hir.
- Mae'r risgiau a'r rhwystrau posib i'r rhaglen wrth fynd ymlaen yn cynnwys:
  - Cael grant llawn ar gyfer Band B
  - Cymhlethdod Model Buddsoddi Cydfuddiannol
  - Mae cwrdd â chyfraniadau lleol bob amser yn her
  - Gallu'r swyddogion i gyflwyno cynlluniau
  - Gallu diwydiant adeiladu i gyflwyno cynlluniau

Cyfraniad corff a gynorthwyir yn wirfoddol

5 **Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Cynhelir cyfarfod nesaf y panel ar 16 Tachwedd am 2pm a chynhelir yn Ysgol yr Olchfa.

The meeting ended at 5.50 pm

**Cadeirydd**